

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Uwchradd Prestatyn

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Uwchradd Prestatyn yn darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol a difyr lle mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu i fod yn unigolion hapus, caredig a pharchus. Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol lle mae disgyblion a staff yn gweithio'n agos ac yn effeithiol fel tîm ac mae'r perthnasoedd hyn yn ffurfio curiad calon yr ysgol. Trwy ei 'Chanolfan Ymgysylltu', ei hystafell les a phartneriaethau ag asiantaethau allanol, mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf a thra ystyriol ar gyfer lles disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth.

Mae cwricwlwm yr ysgol wedi'i gynllunio'n ystyriol gydag anghenion disgyblion yn ganolog iddo. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth ddofn o'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu, ac mae eu hymrwymiad i sicrhau bod yr ysgol yn cefnogi ac yn ffurfio'r gymuned honno yn nodedig. Mae cynnig cyfoethogi ac allgyrsiol bywiog, sydd weithiau'n cael ei ffurfio a'i gyflwyno gan y disgyblion eu hunain, yn ychwanegu at y cwricwlwm ffurfiol,. Er mai megis dechrau datblygu y mae meysydd fel cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cynhwysol, sy'n cynnig rhywbeth i bob disgybl, ni waeth beth yw ei gefndir.

Pan mae'r addysgu ar ei gryfaf, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae gormod o anghysondeb ym mha mor dda y mae athrawon yn cynllunio i ddatblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion dros gyfnod ac ni chaiff disgyblion eu herio'n ddigon da. Mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wna disgyblion.

Mae'r pennaeth a'i uwch dîm wedi gweithio'n dda i sefydlu diwylliant o ddisgwyliadau uchel ar gyfer pawb, ac fe wnaethant rannu eu gweledigaeth yn dda, sef y dylai cymuned yr ysgol gyfan gymryd cyfrifoldeb cadarnhaol am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau. Mae llywodraethwyr, arweinwyr a staff yn gofalu am eu hardal ac yn ymdrechu i sicrhau bod eu hysgol yn cynorthwyo'r gymuned i ffynnu. Mae arweinwyr yn casglu ystod o dystiolaeth i werthuso gwaith yr ysgol, ac at ei gilydd, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Er bod arweinwyr yn gwerthuso ansawdd yr addysgu, nid yw hyn yn ddigon manwl gywir i fodloni eu holl ddyheadau a chynllunio ar gyfer gwella.

# Argymhellion

A1 Cryfhau prosesau gwerthuso a gwella fel bod arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth fwy manwl gywir o effaith eu gwaith, yn enwedig effaith yr addysgu ar ddysgu

A2 Sicrhau bod yr addysgu yn cynorthwyo'r holl ddisgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn raddol

A3 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd Prestatyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ddinbych |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1448 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 1196 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 221 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.2%) | 25.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 17.8%) | 25.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.6% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/10/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 06/02/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/04/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.